GRIFFITHS
civil engineering and construction

A40 Gwelliannau rhwng Llanddewi Felffre a Redstone Cross

Diweddariad Gwanwyn 2022

Croeso i'n cylchlythyr y Gwanwyn. Mae sawl mis wedi mynd heibio oddi ar ein diweddariad diwethaf, ac ers hynny mae tîm Griffiths, sydd wedi'i leoli yn ein swyddfa yn Llanddewi Felffre, wedi bod yn gweithio'n galed ar draws y cynllun mewn partneriaeth â'n dylunwyr, Jacobs, ac o dan oruchwyliaeth Mott MacDonald ac Arcadis. Yn ogystal â gwaith adeiladu, mae llawer wedi bod yn digwydd y tu ôl i'r llenni ynghylch archaeoleg ac ecoleg. Mae timau archaeoleg wedi bod ar y safle mewn gwahanol rannau o'r cynllun ac wedi dod o hyd i sawl eitem o ddiddordeb. Cafodd ardal y credir ei bod yn anheddiad ei darganfod ym Mhenblewin, tybir ei bod yn dyddio'n ôl dros 6,000 o flynyddoedd, a chafwyd hyd i nifer o arteffactau yno.

Archaeolegwyr yn gweithio ym Mhenblewin


Y dehongliad mwyaf tebygol ar gyfer y gyfres o aneddiadau caeedig sy'n dyddio o'r oes Neolithig gynnar

Un o ddau ben bwyell a chrochenwaith a ddarganfuwyd mewn pyllau Neolithig

Cyflwynwyd terfyn cyflymder ym mis Ionawr 2022 oherwydd y peryglon yr ydym wedi dod ar eu traws yn sgil cerbydau sy'n symud yn gyflym. Bu ond y dim i ddamwain digwydd ar sawl achlysur, ac rydym yn eich annog hefyd i roi gwybod i'r heddlu am unrhyw yrru peryglus trwy wefan Ymgyrch Snap a reolir gan GanBwyll, y mae'r manylion wedi'u cynnwys isod.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r ffyrdd gwyro dros dro yn Redstone Cross a Heol Llanfallteg, ac mae'r gwaith o blannu coed aeddfed wedi dechrau. Mae'r ffensys bellach yn eu lle, sy'n dangos ôl troed y cynllun, a bydd y gwaith yn dechrau cynyddu 'nawr wrth i'r tywydd wella ac wrth i drwyddedau gael eu rhoi ar gyfer bwrw ati. Rydym wedi buddsoddi mewn dau ddiffibriliwr arall, a fydd nawr ar batrôl ledled y cynllun. Oherwydd maint y prosiect, mae'n bwysig i ni bod ein gweithlu'n cael ei ddiogelu, a'n gobaith yw y bydd diffibrilwyr wrth law os bydd eu hangen mewn argyfwng.

Mae cerbydau deffibrilwyr 'nawr ar y ffordd

Cynhaliwyd ein sesiwn hyfforddi gyntaf yn y gymuned gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a St John Cymru ar ddiffibrilwyr, a gobeithiwn gynnal digwyddiadau eraill wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Yn seiliedig ar yr adborth o'r cylchlythyr blaenorol, rydym wedi cynnwys llun o'r awyr o gynllun y ffyrdd, a gobeithiwn y bydd o fudd. Fel bob amser, cysylltwch â ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, a chroesawn eich adborth.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

CONSIDERATE CONSTRUCTORS

Rydyn ni'n adeiladwyr ystyriol
www.ccscheme.org.uk

Gellir cysylltu â'n tîm cyswllt cyhoeddus a chymunedol trwy e-bost neu dros y ffôn.

A40LVRCenquiries@alungriffiths.co.uk
Rhif ffôn: 0330 107 1504

Edrychwch ar wefan y prosiect community.alungriffiths.co.uk

Mae Swyddfa'r Prosiect wedi'i lleoli i'r gorllewin o bentref Llanddewi Felffre, ger Parc-y-Delyn, SA67 7PA

///start.salmon.native

Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr e-bost

Rhoi Gwybod am Yrru Gwael

Rydym yn codi ymwybyddiaeth o pa mor hawdd yw hi i anfon eich tystiolaeth ar ffurf lluniau neu fideos am droseddau gyrru at yr heddlu yng Nghymru. Gallwch wneud y cyfan gan ddefnyddio Ymgyrch SNAP.

gosafesnap.cymru

30 GanBwyll GoSafe
CADW FFYRDD CYMRU'N FWY DIOGEL
KEEPING WELSH ROADS SAFER

Tîm Griffiths yn y Gymuned

- Rydym wedi cael ychydig o fisoedd prysur yn gweithio yn y gymuned, ac ymhlith ein huchafbwyntiau mae:
- Amrywiol Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn ymweld â'r safle i ddysgu am y cynllun a'r archaeoleg a ddarganfuwyd hyd yma.
- Sgwrs am archaeoleg gyda Chymdeithas Hanes Llanfallteg.
- Dosbarthu cennin pedr i bobl sy'n byw'n agos at y cynllun.
- Cwrdd â grwpiau cymunedol lleol i ddarganfod ffyrdd y gall y tîm eu cefnogi trwy gydol y prosiect.
- Rhoi caban ar y safle i Greenacres Animal Rescue.
- Sesiwn Holi ac Ateb am Waith Adeiladu yn Ysgol Arberth.
- Cefnogi Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru (CWIC) a Gyrfa Cymru gyda'u rhaglen Realiti Rhithiwr CONVERT mewn Ysgolion.
- Darparu hyfforddiant ar ddiffibrilwyr i bobl leol.
- Gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus ar y Cynllun Ardaloedd Di-sbwriel.
- Cynnal ein hail ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr i gynnig cyfleoedd i fusnesau a chyflenwyr yn yr ardal leol.

Swyddi gwag

Byddwn yn chwilio am weithwyr tir a chrefftau medrus eraill wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r tîm, anfonwch eich CV atom gan restru eich cymwysterau a'ch achrediadau i A40LVRCenquiries@alungriffiths.co.uk.

Rhestrir y cyfleoedd am yrfaoedd gyda'r cynllun hwn yn rheolaidd ar jobsearch.tarmac.com

Crynodeb o'r Gwaith: Dwyrain Llanddewi Felffre i Benblewin



Mae'r llun yn dangos y ffordd newydd oddi uchod ac elfennau allweddol y cynllun o Benblewin i Landdewi Felffre.

Cylchfan Penblewin
- Ailfodelu Cylchfan Penblewin.
- Mynediad i'r man gorffwys ac eiddo ar hyd yr A40 presennol o'r gylchfan.

Yr A40 presennol
- Bydd hyn yn parhau i fod ar gyfer mynediad i eiddo ac ar gyfer cysylltedd ffyrdd lleol.

Ffynnon Wood
- Mae'r ardal hwn yn gyfyngiad allweddol i'r prosiect.
- Defnyddio'r llwybr presennol cyn belled ag y bo modd.

Cyffordd Goellewin Llanddewi Felffre
- Trefniant cyffordd i gysylltu â'r A40 bresennol i Landdewi Felffre.
- Llwybr gogleddol i gysylltu'n ôl â Ffynnon.

Dwyrain Llanddewi Felffre
- Cylchfan newydd i'r dwyrain o Landdewi Felffre.
- Mae'r llwybr i'r gogledd yn cysylltu â Chapel Bethel, eiddo a fferm.

Crynodeb o'r Gwaith: Penblewin i Redstone Cross

Mae'r llun yn dangos y ffordd newydd oddi uchod ac elfennau allweddol y cynllun o Redstone Cross i Benblewin.

Trosbont Croesffordd Maencoch
• Pont newydd ar gyfer y B4313 dros briffordd arfaethedig yr A40.
• Yn darparu cysylltedd rhwng y gogledd a'r de a mynediad i briffordd bresennol yr A40.



Cyffordd Croesffordd Maencoch
• Trefniant cyffordd i gysylltu â'r.
• B4313 Ffordd Maencoch presennol.
• Mynediad ac allanfa i'r gorllewin (Hwlffordd), symudiadau dwyreiniol i'w gwahardd.

Yr A40 presennol
• Bydd yr A40 bresennol yn aros, ond ni fydd yn gefnffordd mwyach. • Mae mesurau Teithio Llesol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynigion.
• Bydd y llwybr hwn yn darparu mynediad i'r gogledd o Arberth.

Priffordd arfaethedig yr A40
• Cyfluniad Priffordd 2+1.
• Gofod mynd heibio yn cael ei ddarparu tua'r gorllewin am 1.2km.

Cylchfan Penblewin
• Ailfodelu Cylchfan Penblewin (cylchfan 6 braich).
• Mynediad i Faencoch ac i'r gogledd o Arberth drwy'r A40 presennol (i'w israddio i briffordd).

Pam mae yna derfyn cyflymder dros dro ar waith?

Gosodwyd cyfyngiad cyflymder 30 mya dros dro yn ystod mis Ionawr 2022. Mae cyfyngiadau amgylcheddol wedi golygu nad yw ein cerbydau adeiladu wedi gallu teithio trwy'r caeau, ac felly wedi gorfod cael mynediad i ôl troed y cynllun trwy'r mynedfeydd niferus sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r A40, sy'n risg fawr iawn i'r gweithlu a defnyddwyr y ffyrdd. Bydd rhagor o waith sylweddol i gulhau ac adeiladu ffyrdd yn cael ei gwblhau dros y misoedd nesaf, ac mae'r A40 yn arbennig o beryglus oherwydd gosodiad y cynllun. Rydym wedi cofnodi nifer o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, sy'n amlygu'r angen am gyfyngiadau cyflymder. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried yr adborth gan yr holl randdeiliaid, ac mewn rhai ardaloedd lle bernir ei bod yn ddiogel gwneud hynny, rydym wedi ceisio addasu'r cyfyngiadau cyflymder dros dro trwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro. Rydym yn rhagweld y bydd unrhyw newidiadau yn eu lle erbyn haf 2022.

Beth fydd yn digwydd i'r hen A40?

Rydym am glywed eich barn am ein cynigion i dynnu statws cefnffordd yr hen A40 ac am y newidiadau i bentref Llanddewi Felffre.

Cynigion i Dynnu'r Statws Cefnffordd: Digwyddiad Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Rydym yn bwriadu cynnal ein digwyddiad i roi gwybodaeth i'r cyhoedd yr haf hwn yn swyddfa'r prosiect, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o bentref Llanddewi Felffre. Bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau.

Ymunwch â rhestr cyfeiriadau e-bost y cylchlythyr hwn i gael yr wybodaeth ddiweddaraf!

MOTT MACDONALD GRIFFITHS civil engineering and construction ARCADIS Jacobs

Cynllun yn ôl rhifau

Ffordd wyro ar Heol Redstone

Dechrau plannu coed aeddfed

Arolygon peiriannydd

A40 Gwelliannau rhwng Llanddewi Felffre a Redstone Cross in numbers…

- 2 gylchfan newydd a 2 gyffordd newydd.
- 6km o briffordd newydd.
- 2 bont newydd, 18 cwlfert newydd a 3 estyniad i'r cwlfertau presennol.
- 5.5km o gyfleusterau a rennir ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth ceffylau.
- 9 pwll draenio cynaliadwy.
- 14.5km o ddraeniad priffyrdd a phibellau cysylltiedig.
- 16km o ffensys ecolegol

Gwyriadau Ffyrdd Dros Dro o fis Mai 2022:
Bydd dwy ffordd wyro dros dro ar waith ar Heol Redstone a Heol Llanfallteg o fis Mai. Bydd y rhain yn ein galluogi i adeiladu seilwaith y ddwy bont. Bydd y ffyrdd gwyro byr yn cael eu hadeiladu o amgylch y ffordd bresennol lle bydd y pontydd yn bodoli, ac er y bydd y cyflymder yn cael ei leihau trwy'r ardaloedd hyn, ni fydd y ffyrdd gwyro hyn yn rhwystro'r traffig fel arall.

Gwaith archaeoleg ym Mhenblewin

Ffordd wyro ar Heol Redstone

Ffordd wyro ar Heol Redstone